

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, NOS LUN 23ain Mai, 2016.

PRESENNOL

Cyng Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyng Dewi Wynne Jones, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Dewi Arfon Jones , Cyng. John Owen, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Ebrill, 2016.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

1) GEGIN WEN

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a fuodd yn cynorthwyo i glirio safle Gegin Wen, Llanddoged. Mae'r safle yn barod rŵan i gael llwyth o lechi mân i orffen gorchuddio gwyneb y maes parcio.

CYMERADWYO'R CYFRIFON BLYNYDDOL YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2015.

Cadarnhaodd y clerc fod yr Archwilydd mewnol Mr John Arthur Jones o Lanrwst wedi archwilio Cyfrifon y Cyngor sydd yn diweddu 31ain Mawrth 2015 ac wedi eu canfod yn gywir. Pasiwyd ac eiliwyd i dalu £50 iddo am ei wasanaeth.

Cymeradwyodd aelodau'r Cyngor y Cyfrifon Blynyddol sydd yn diweddu 31ain Mawrth 2015. Mi fydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol sef 'Archwilydd Cyffredinol Cymru'.

ASESIAD RISG

Pasiwyd ac eilwyd drwy godi ei dwylo i gymeradwyo copi o'r Asesiad Risg y Cyngor am y flwyddyn 2016/17.

RHEOLIADAU ARIANNOL

Cymerawydd aelodau y Cyngor drwy godi ei dwylo y Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned.

RHEOLIADAU SEFYDLOG

Trafodwyd y ddogfen Rheoliadau Sefydlog a pasiwyd I gymeradwyo y Rheoliadau Sefydlog y Cyngor Cymuned drwy godi ei dwylo.

Y GYLLIDEB Y FLWYDDYN

Rhannodd y Clerc gopi o'r gyllideb flynyddoll am y flwyddyn 16/17. Trafodwyd y Gyllideb ac ni chafwyd unrhyw gymhlethod yn codi. Cymeradwyodd aelodau y Cyngor drwy godi llaw.

COD YMDDYGIAD

Mabwysiadwyd Cod Ymddygiad yn gosod safonau ymddygiad priodol sy'n disgywliedig gan gynhorwyr ac mae'r aelodau y Cyngor Cymuned wedi cytuno i gydymddurfio a'r Cod fel unigolion.

COFRESTR BUDDIANNAU

Cadarnhodd y Clerc fod y cofrestr Buddiannau wedi ei diweddarau a chwblhau ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau canlynol:-

1. Cais rhif 0/42759- Addasu ac ymestyn adeilad allanol presennol, o stablau di angen ac ardal storio i ffurfio swyddfa gartref a man stiwdio/chwarae ar y cyd a'r defnydd domestig o'r tŷ annedd presennol yn Crud yn Awel, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
2. Cais rhif 0/42803 – Trawsnewid capel rhestredig gradd II presennol i annedd unigol – Capel Soar, Tan y Bryn, Ffordd Tyrpeg, Llanddoged. LL26 OBJ.
3. Cais rhif 0/42775 – I docio 3 o goed ynn. Torri 1 goeden sycamorwydden i'w hanner – Tyn y Berth, Tan Lan, Llanddoged, Conwy LL26 OTY.

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau yma.

GOHEBIAETH

Dim gohebiaeth.

CYNNAL A CHADW

- 1) Pryder fod y cyhoedd yn mynd a cŵn ar y cae chwarae 'Cae Cetyn' Llanddoged. Angen rhoi cais i Gyngor Conwy i gael arwydd dim cwn ar y cae chwarae.
- 2) Arhosfa Bws/Bus Stop - angen gorffen paentio'r arhosfa bws ym mhentref Llanddoged.